| | |
|---|---|
| | **SWYDDOGOL** |

| GWYBODAETH POLISI | |
|---|---|
| Teitl | Polisi Gwrth-Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd |
| Fersiwn | V3.0 |

| PERCHNOGAETH POLISI | |
|---|---|
| Noddwr Polisi | Y Dirprwy Brif Gwnstabl |
| Perchennog Polisi | Pennaeth Safonau Proffesiynol |
| Awdur Polisi | DCI Adran Safonau Proffesiynol |

Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau gan y cyhoedd a staff ynghylch cynnwys a gweithrediad y polisi hwn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r polisi hwn, ysgrifennwch at: **Uned Llywodraethu Gwybodaeth Heddlu Trafnidiaeth Prydain 2il Lawr, 3 Sgwâr Callaghan Caerdydd, CF10 5BT** neu e-bostiwch: FOI@btp.pnn.police.uk

## Pwrpas y Polisi

Mae angen y polisi hwn i helpu i atal a lleihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn Polisi Trafnidiaeth Prydain ac Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain. Mae'r polisi'n ceisio sicrhau atal, hwyluso canfod, hybu hyder wrth riportio'n gynnar a nodi llwybr clir ar gyfer ymchwilio a gweithredu adferol mewn perthynas â phob achos o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd.

## I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol

Mae'r polisi a'r canllawiau hyn yn berthnasol i holl gyflogeion BTP/A yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. O fewn y polisi a'r canllawiau hyn, ac eithrio pan yw categorïau wedi'u heithrio'n benodol, mae'r term 'cyflogai' yn cynnwys swyddogion heddlu, cwnstabliaid arbennig, pob categori neu gyflogai heb warant gan gynnwys staff yr heddlu a PCSOs, gweithwyr contract asiantaeth a dros dro, aelodau'r Awdurdod, ymgynghorwyr, gweithwyr ar secondiad i BTP gan sefydliadau eraill a gwirfoddolwyr cymunedol.

Er efallai na fyddant yn dod o fewn cwmpas y polisi hwn, mae disgwyl i gwmnïau a sefydliadau sy'n gweithio i neu gyda BTP/A gadw at egwyddorion 'tryloywder a chywirdeb'. Ymchwilir i unrhyw awgrym bod cwmnïau a sefydliadau yn cyflawni gweithredoedd o lygredd wrth weithio i neu gyda BTP a lle bydd angen, bydd achos troseddol yn cael ei gychwyn, a/neu bydd adroddiad yn cael ei wneud i'r corff proffesiynol a/neu'r corff masnach perthnasol.

## Egwyddorion

Mae'r polisi hwn yn diffinio'r hyn sy'n gyfystyr â llygredd a thwyll yn y gwasanaeth heddlu. Mae'n darparu canllawiau ar ba gamau i'w cymryd os yw llygredd neu dwyll yn cael ei nodi neu ei amau ac mae'n cynnwys y gwahanol ffyrdd y gellir riportio toriadau a amheuir, gan gynnwys afreoleidd-dra ariannol. Mae hefyd yn manylu ar y cyfyngiadau ynghylch cynigion o roddion, lletygarwch, gostyngiadau ac arian rhodd a'r gofyniad i ddatgan a oes gennych fuddiant mewn menter fusnes bresennol neu yn y dyfodol y mae gan Heddlu neu Awdurdod Trafnidiaeth Prydain gysylltiad â hi, neu'n ystyried cael cysylltiad â hi.

## Monitro ac Adolygu

Mae PSD yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r polisi a'r canllawiau. Bydd y polisi a'r canllawiau'n cael eu hadolygu bob tair blynedd o leiaf (oni bai bod amgylchiadau'n mynnu y dylid eu hadolygu'n amlach).